Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Heather Hancock
Cadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Asiantaeth Safonau Bwyd
Clive House
70 Petty France
San Steffan
Llundain
SW1H 9EX

15 Mehefin 2018

Annwyl Heather

**Cyngor Gan Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Faterion a Drafodwyd gan y Pwyllgor:Mehefin 2018**

Prif rôl y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yw rhoi cyngor i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Yn ei gyfarfod ddoe, trafododd y Pwyllgor y materion canlynol a gaiff eu trafod gan y Bwrdd maes o law:

- Datblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
- Rheolaethau Llaeth Yfed Amrwd
- Adolygiad o ffatrioedd torri a storfeydd oer
- Adroddiad canol y rhaglen – Rheoleiddio Ein Dyfodol
- Strategaeth Ryngwladol
- Adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd

Rwy'n ddiolchgar i Andy Morling, Stuart Armstrong, Simon Dawson, Catriona Stewart, Steve Cowperthwaite, a Laura Eden am ymuno drwy fideo gynhadledd i gyflwyno eu papurau ac am ateb cwestiynau gan aelodau. Roedd ambell i broblem dechnegol gyda'r dechnoleg, ac rwy'n ddiolchgar i bawb am eu hamynedd.

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: Lucy.Edwards@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999

Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy:
Let's keep connected:
facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd
facebook.com/FoodStandardsAgency
@fsacymru / @fsawales
@foodgov

Datblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur a oedd yn trafod cynnydd y cynlluniau i ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd o ran cael galluoedd gweithredol o ddechrau'r broses i'r diwedd (Cam 2) fel y trafodwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2017. Mae hyn yn dilyn cymeradwyo cyllid gan Drysorlys Ei Mawrhydi wedi i'r ASB gyflwyno achos busnes ddechrau mis Mai a gymeradwywyd gan is-grŵp y Bwrdd ar 18 Ebrill. Yn ystod ei drafodaethau, nododd y Pwyllgor fod nifer o broblemau heb eu datrys mewn perthynas â natur Uned Cymru o ran etifeddiaeth yr Uned Cydlynu Twyll Bwyd bresennol a sut y gellid ei halinio â'r Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd. Yn hyn o beth, nododd y Pwyllgor fod trafodaethau wedi'u cynnal gydag Uned Cymru, a'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal ar hyn o bryd, ac y byddant yn parhau yn dilyn ystyriaethau'r Bwrdd. O ystyried hyn, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer gweithredu'r Uned yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth lleoliad, graddfa a maint trefniadau a goblygiadau'r dyfodol i'r staff sy'n gweithio i'r Uned ar hyn o bryd;
- byddai'n croesawu rhagor o fanylion am weithrediadau'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd gyda chyfeiriad penodol ar sut y caiff ei hadolygu a'i monitro, a sut y caiff ei pherfformiad ei asesu yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol;
- gan nodi'r cynnig mai'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd fydd yr unig bwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau gorfodi cyfraith y DU a phartneriaid eraill, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall beth yw'r berthynas bresennol gyda Safonau Bwyd yr Alban a sut y bydd hyn yn newid yn y dyfodol;
- gan nodi bod gan Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru bwerau ymchwilio yng Nghymru ar hyn o bryd, mae aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y pwerau hyn yn parhau tra bod deddfwriaeth yn cael ei llunio i sicrhau pwerau ymchwilio i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, oherwydd natur twyll bwyd a throsedd bwyd, bod creu'r Uned hon yn gyfle cadarnhaol i Gymru fod â gwell cysylltiad â rhwydwaith ehangach o wybodaeth (*intelligence*) a galluoedd. I gloi, croesawodd y Pwyllgor y dull 3 gwlad o weithredu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, ac roedd yn gwerthfawrogi'r safbwynt bod yr hyn sy'n gweithio orau i Gymru yn cael ei ystyried wrth gynllunio dyfodol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

Rheolaethau Llaeth Yfed Amrwd

Mae'r papur hwn yn adeiladu ar un a ystyriwyd ym mis Mawrth 2018 a oedd yn edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer llaeth yfed amrwd ar opsiynau posibl i'w hystyried ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Croesawodd y Pwyllgor y papur sy'n trafod mynd i'r afael â gwerthu

llaeth yfed amrwd yng nghyd-destun egwyddorion rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a'r Fframwaith Bwydydd sy'n Peri Risg. Mae'r papur yn gofyn am sylwadau ac argymhellion i wella'r mesurau rheoli presennol ar gyfer llaeth yfed amrwd. Yn ei ystyriaethau, nododd y Pwyllgor y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan arweinydd Safonau Bwyd Penaethiaid Safonau Masnach Cymru ar y papur. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio ar nifer o faterion safonau bwyd gyda phwyslais ar sicrhau na ddylid eithrio llaeth yfed amrwd rhag gofynion labelu llawn o ystyried pwysigrwydd gwybodaeth am risg ac olrhain sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch.

O ran y cynnydd mewn achosion o salwch sy'n gysylltiedig â llaeth yfed amrwd, a'r cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr, nodwyd ei bod yn anodd dod i unrhyw gasgliadau cadarn o ran tueddiadau mewn cynhyrchu dros amser. Wrth roi sylwadau ar resymau posibl dros y cynnydd o ran cynhyrchu llaeth yfed amrwd, holodd y Pwyllgor a oes unrhyw grantiau ar gael gan y llywodraeth, yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, sy'n annog arallgyfeirio.  Wrth nodi bod cynigion i lunio llyfryn canllawiau arfer gorau, ac i sefydlu grŵp cynhyrchwyr, dywedodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig sicrhau bod undebau ffermio yng Nghymru wedi cyfrannu at y broses hon. Yn ystod ei drafodaethau, roedd rhai o aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylid ffafrio gwahardd gwerthu llaeth yfed amrwd, ac er nad oedd hyn yn unfrydol, roedd y Pwyllgor yn rhannu'r pryder bod angen i ddefnyddwyr wybod yn sicr am y diffyg manteision iechyd a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag yfed llaeth yfed amrwd. Roedd sylwadau eraill y Pwyllgor yn cynnwys:

- cytuno bod y Pwyllgor  yn parhau i bryderu am y cynnydd mewn achosion a niwed i iechyd pobl;
- tra bod y Pwyllgor yn cydnabod nad oes digon o ddata ar laeth yfed amrwd, nododd y gallai'r risg gynyddu gyda'r cynnydd yn y lefelau cynhychu;
- mae'n rhaid i fwyd fod yn addas i'w fwyta gan bobl a chyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd yw sicrhau bod y bwyd y maent yn ei gynhyrchu yn ddiogel;
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am ddull atal.  Yn hyn o beth,  croesawodd y Pwyllgor y rheolaethau cynyddol arfaethedig a dywedodd y dylai fod yna bwyntiau clir ar gyfer cynyddu'r camau gweithredu, yn ogystal â gwaith monitro rheolaidd.

Wrth gytuno bod angen rheolaethau marchnata gyda labelu clir, gan bwysleisio na ddylai plant fwyta/yfed y cynnyrch hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig atgyfnerthu'r rhain gydag ymgyrchoedd cyfathrebu cadarn sydd wedi'u hanelu at grwpiau defnyddwyr penodol.
Ymhellach, cytunodd y Pwyllgor na ddylid annog cymhellion ariannol i gynyddu'r cynhyrchiad o laeth yfed amrwd.

Adolygiad o ffatrioedd torri a storfeydd oer

Croesawodd y Pwyllgor y papur a oedd yn bapur interim yn crynhoi cynnydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn yr adolygiad ar draws y DU o ffatrïoedd torri a storfeydd oer, yn sgil achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn gwahanol ffatrioedd torri. Wrth nodi canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad, roedd y Pwyllgor yn cydnabod cymhlethdod y gweithrediadau cyfredol. Roedd o'r farn y byddai canlyniadau'r adolygiad yn gyfle da i wneud gwelliannau sylweddol i'r

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919

ffordd y mae ffatrïoedd torri a storfeydd oer yn gweithredu. Roedd y Pwyllgor yn rhannu pryderon am y rhaniad dryslyd o gyfrifoldebau rhwng sefydliadau awdurdodau lleol a sefydliadau a gaiff eu monitro gan yr ASB. Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiad wedi'i alinio â rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â rôl data sicrwydd preifat a sut y gellir defnyddio'r data hwn. Wrth hysbysu camau nesaf yr adolygiad, tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynhyrchwyr cynradd a'r undebau ffermio yng Nghymru.

<u>aAdroddiad canol y rhaglen – Rheoleiddio Ein Dyfodol</u>

Aeth yr Aelodau ati i ystyried y papur a oedd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar draws rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol ers mis Mehefin 2017. Mae'r papur yn disgrifio'r prif newidiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r drefn reoleiddio mewn pryd i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac mae'n amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar elfennau eraill o'r system reoleiddio newydd wrth baratoi ar gyfer cyflawni ar ôl ymadael â'r UE. Wrth ystyried cynnydd y rhaglen, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- mewn perthynas â dechrau busnes a chofrestru manylach, nododd y Pwyllgor fod nifer o awdurdodau lleol a busnesau bwyd yn profi gwasanaeth ar-lein, gan gynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru, a'r uchelgais yw lansio fersiwn gyntaf y dull digidol newydd mewn pryd i'r DU ymadael â'r UE. Ymhellach, roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod sut y byddai tystiolaeth yn cael ei chasglu i hysbysu'r penderfyniad ar y cysyniad Trwydded i Fasnachu a chafodd ei sicrhau bod proses werthuso yn cael ei sefydlu i lywio'r opsiwn hwn;

- O ran segmentu busnesau bwyd, tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i gynnal uniondeb y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru. Dywedodd y Pwyllgor y byddai'n croesawu sicrwydd pellach ar sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni;

- ar Strategaethau Arolygu Cenedlaethol yr Awdurdod Cynradd, nododd y Pwyllgor y gwaith sydd wedi mynd rhagddo i brofi'r cysyniad o Strategaethau Arolygu Cenedlaethol, a byddai'n croesawu'r cyfle i weld yr adroddiad gwerthuso o'r profion hyn pan fydd ar gael;

- wrth fynd ar drywydd dulliau cyllido cynaliadwy, nodwyd bod gan Gymru lefelau uchel o dlodi ac felly mae cost ac argaeledd bwyd yn bryder i fusnesau a defnyddwyr.

Yn amodol ar y sylwadau uchod, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r diweddariad ac mae'n awyddus i gael diweddariadau pellach ar y rhaglen waith fawr hon.

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919

Strategaeth Ryngwladol

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur sy'n disgrifio strategaeth ryngwladol ddrafft sy'n cael ei datblygu ar gyfer yr ASB. Nododd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y cynlluniau cyflawni sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r strategaeth yn darparu trefniadau llywodraethu, monitro ac adolygu clir i olrhain gwaith rhyngwladol yr ASB. Wrth nodi nodau cyffredinol y Strategaeth Ryngwladol wrth hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r ASB a'i grym, dywedodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y strategaeth yn cefnogi buddiannau gweinyddol y DU a gweinyddiaethau datganoledig. Gan gyfeirio at Gymru, dywedodd y Pwyllgor y dylai'r strategaeth gefnogi dyheadau agenda twf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bwyd a diod. Yn amodol ar hyn, croesawodd y Pwyllgor y dull a gymerwyd yn y Strategaeth ac mae'n awyddus i fod yn rhan o'r ymgynghoriad ar fanylion y cynlluniau cyflawni.

Adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y papur a oedd yn rhoi gwybod am ganfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd i ystyried sut y gellid gwella a chryfhau cyfraniad gwerthfawr y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd presennol ynghylch rôl yr ASB yn y dyfodol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad yn gynnar a helpu i lunio rhai o'r canfyddiadau.

Codwyd nifer o gwestiynau ar yr argymhellion, a sut y gallent weithio'n ymarferol. Hysbysodd y Cadeirydd y byddai'r manylion yn cael eu harchwilio mewn cynllun sefydlu a fyddai'n cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cyfrannu at y cynllun gweithredu. Croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad a'i ganfyddiadau gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at ail-lunio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn gadarnhaol iawn ei fod yn gallu parhau i ddarparu cyngor effeithiol wedi'i lywio'n gadarn i'r Bwrdd, a'i fod yn awyddus i weithio mewn fformat newydd a fydd yn galluogi cyfraniad mwy ystyrlon i ddatblygu polisi ar ei gamau cynharaf.

Materion eraill

Nid oedd y papur i'w ystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf, ar Ymadael â'r UE, ar gael ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor oherwydd datblygiadau cyflym yn y maes hwn a'r gofyniad i bapur y Bwrdd adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Fel arall, cafodd y Pwyllgor eu briffio ar y sefyllfa ddiweddaraf. Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gweld y papur, pan fydd ar gael, ac yn adrodd ar unrhyw sylwadau pellach sydd gan aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Bwrdd.

Yn ôl yr arfer, fe gyflwynais adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor a oedd yn crynhoi trafodaethau'r cyfarfod Bwrdd diwethaf a oedd yn cynnwys trafodaethau ar Wyddoniaeth; Llaeth Yfed Amrwd; a'r Strategaeth Ryngwladol. Yn fy adroddiad, tynnais sylw at y cyfarfod ym mis Ebrill gyda Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfod a gynhaliwyd gyda Dave Thompson, Cadeirydd newydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru. At hynny, fe drafodais gyfarfod busnes y Pwyllgor Cynghori ym mis Mai

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919

lle gyfrannodd yr aelodau fewnbwn pellach i'r adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Yn olaf, fe wnes i ddiweddaru'r Pwyllgor ar fy nghyfraniad i'r broses recriwtio sydd ar y gweill i benodi dau aelod newydd i'r Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr dros dro yng Nghymru, a oedd yn rhoi gwybod am ymrwymiadau diweddar, gan gynnwys y cyfarfod Gweinidogol ym mis Ebrill a thrafodaethau a gynhaliwyd gyda Chadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru a nifer o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am weithgarwch ymadael â'r UE yr ASB sydd wedi canolbwyntio ar weithio gyda nifer o borthladdoedd allweddol ledled Cymru, i ddeall mwy o ran faint o fwyd, a pha fath o fwyd, sy'n dod trwy borthladdoedd Cymru a pha adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol i gynnal gwiriadau cymesur sy'n seiliedig ar risg. Yn hyn o beth, roedd y Pwyllgor yn falch o gael gwybod am gais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ymadael â'r UE. Roedd y diweddariad yn rhoi gwybod i aelodau am waith yr ASB yng Nghymru ar atchwanegiadau bwyd ar ran yr ASB. Cafodd y Pwyllgor ei hysbysu y bydd gwaith mewnwelediad â defnyddwyr yn cael ei gyhoeddi'n fuan a gomisiynwyd i lywio datblygiad gwaith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cafodd wybod hefyd bod pecyn gorfodi wedi'i ddatblygu ar gyfer awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio a chynnal arolygiadau mewn siopau bwyd sy'n gwerthu atchwanegiadau bwyd.

Fe rannais â'r Pwyllgor lythyr a ddaeth gan gyd Aelod Bwrdd mewn perthynas â chanfyddiadau ymchwil ddiweddar i gyfraddau arddangos sticeri o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol sydd ar waith yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Fe hysbysais y Pwyllgor o'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau arddangos a chydymffurfiaeth busnesau yng Nghymru. Nodwyd bod maint y gweithgarwch gorfodi yn fwy yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi hysbysu'r aelodau bod ASB Cymru ar hyn o bryd yn ariannu prosiect gwyliadwriaeth gyda dau awdurdod lleol yng Nghymru i fesur gwybodaeth am gydymffurfiaeth busnesau mewn ardaloedd targed gyda'r bwriad o gyflwyno'n ehangach ledled Cymru ar ôl ei werthuso.

Rhannais hefyd ohebiaeth a ddaeth i law gan Gadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru mewn perthynas â byrgyrs nad ydynt wedi'u coginio'n drylwyr a negeseuon i ddefnyddwyr wrth y pwynt archebu. Nodwyd bod ymateb ffurfiol i'r ohebiaeth yn cael ei baratoi gan swyddogion. Mae hwn yn faes y mae'r Pwyllgor yn parhau i fod â rhywfaint o bryder yn ei gylch, ac roedd yn croesawu'r deialog gyda Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru.

Byddaf yn anfon copi o’r llythyr hwn at Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ac at y Prif Weithredwr.

Yn gywir

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919

pp Dr Ruth Hussey CB, OBE
Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
(Wedi'i awdurdodi a'i lofnodi yn ei habsenoldeb)

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: wales@foodstandards.gsi.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999
Ffacs / Fax: 029 2067 8919